

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 155 Rhif 39 Medi 29, 2022 50c.

## Oedfa Sefydlu Parch Gareth Ioan: 10 Medi 2022

Ar brynhawn Sadwrn hydrefol braf ar 10 Medi 2022 sefydlwyd y Parchg Gareth Ioan yn weinidog i Iesu Grist yn eglwysi Annibynnol Bryn Iwan, Blaen-y-coed, Nanternis a Moriah, Blaen-waun.

Dechreuodd Gareth Ioan wasanaethu cynulleidfa Bryn Iwan, sy'n gorwedd ar ucheldir gogledd-orllewin Sir Gaerfyrddin, bron i dair blynedd yn ôl yn Nhachwedd 2019. Roedd ar y pryd yn cwblhau ei astudiaethau gyda Choleg yr Annibynwyr. Yn Ionawr 2020 estynnodd ei ofal dros eglwys Annibynnol Moriah, Blaen-waun, hefyd; eglwys a fu'n hanesyddol yn rhannu gweinidog gyda Bryn Iwan. Mae Gareth a'r teulu yn aelodau yn eglwys Annibynnol Nanternis, ger Ceinewydd, ac yn ystod ei gwrs coleg fe estynnwyd gwahoddiad iddo weinidogaethu yn eu plith hwy yn ogystal. Ar ddechrau 2020

derbyniodd alwad gan eglwys Annibynnol Blaen-y-coed, eglwys gyffiniol ei dalgylch â Bryn Iwan, i fod yn weinidog arnynt hwythau hefyd a dechreuodd ar y gwaith ym mis Mawrth 2020.

### Gohirio ac addasu

Yn anffodus, fel y gwyddom, rhyw bythefnos wedi'r te croeso ym Mlaen-y-coed fe ddaeth yn argyfwng cyhoeddus wrth i bandemig COVID-19 ledu drwy'r wlad. Bu'n rhaid

anghofio am unrhyw gyrrdau ordeinio a sefydlu am y tro a throi meddwl at batrymau newydd o weinidogaethu. Llwyddwyd i gynnal oedfa ordeinio gyfyngedig ei phresenoldeb yn Nanternis yn Nhachwedd 2020, dan arweiniad y Parchg Aled D. Jones o Goleg yr Annibynwyr, pan ddaeth hoe fer o'r cyfyngiadau. Fodd bynnag, roedd yr awydd i gynnal gwasanaeth sefydlu undebol rhwng y pedair cynulleidfa yn parhau'n obaith byw. Gyda'r cyfyngiadau bellach wedi eu codi, daeth cyfle i wneud hynny a daeth tyrfa deilwng iawn ynghyd i nodi'r achlysur ym Mryn Iwan.

### Yr Oedfa Sefydlu

Llwyddwyd yr oedfa yn urddasol a hwyliog gan y Parchg Tom Defis, sydd â chysylltiadau agos â Bryn Iwan a Blaen-y-coed fel ei gilydd. Offrymwyd gweddi gan Gwendoline Evans, ysgrifennydd eglwys Nanternis, sydd wedi cydweithio â Gareth yng nghylch Ceinewydd ers rhai blynedd. Cyflwynwyd yr emynau gan Esther Defis (Blaen-y-coed), Elliw Griffiths (Bryn Iwan) a Rosemarie Davies (Moriah). Darllenwyd



o'r Ysgrhythur gan Meirion Thomas (Bryn Iwan) a Cai Phillips (Blaen-y-coed). Cafwyd eitem gerddorol swynol iawn gan blant ysgolion Sul Bryn Iwan a Blaen-y-coed.

### Croesawu

Rhannwyd geiriau o groeso ac anogaeth gan ysgrifenyddion yr eglwysi – Rhiannon Mathias (Bryn Iwan), Gwendoline Evans (Nanternis), Elsbeth Page (Blaen-y-coed) a Meinir Eynon (Moriah). Cafwyd cyfarchion yn ogystal gan Elonwy Phillips (Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin), y Parchg Carys Ann (Cyfundeb Ceredigion), y Parchg Aled D. Jones (Coleg yr Annibynwyr) a'r Parchg Beti-Wyn James (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg).

### Agor y Gair

Traddodwyd y bregeth siars gan y Parchg Guto Prys ap Gwynfor, gan seilio ei neges ar Marc 1: 14-15. Heriodd Guto Gareth a'r cynulleidfa oeddi i sylweddoli eu cyfle, eu cyfrifoldeb a'u braint o gael cyhoeddi a gweithredu Efengyl Duw yn y dydd a'r dwthwn hwn. Bu dosbarthiadau Guto yn Llandysul yn ysbrydoliaeth fawr i Gareth. Roedd y bregeth, fel y dosbarthiadau, yn fwrwm byw o ysgolheictod, gweledigaeth a her. Roedd yn fraint i'w gwranddo.

### Cwmnïaeth

Yn dilyn yr oedfa cafwyd cyfle i ymuno yn y gymdeithas a'r gwmnïaeth o amgylch y byrddau yn y festri. Mae ein diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at y lluniaeth a'r gweini. Cafwyd hefyd gyfle i werthfawrogi'r gwelliannau a wnaed i'r festri yn ddiweddar a phrofwyd bendithion y dechnoleg newydd a gyflwynwyd i'r capel (gyda chymorth y gronfa Arloesi a Buddsoddi) yn ystod y gwasanaeth. Bydd ffilm o'r achlysur yn ymddangos ar YouTube a dalennau Facebook yr eglwysi maes o law. Bore trannoeth cynhaliwyd cymun yn Nanternis, gyda chynrychiolwyr o eglwysi lleol yn ymuno â'r gynulleidfa leol. Yn y prynhawn cafwyd cymun undebol ym Mlaen-y-coed. Braf oedd cael eitem gerddorol yno gan ieuencid Blaen-y-coed a Bryn Iwan. Cwblhawyd y dathliadau drwy barhau'r gwledda yn y festri drachefn.

Carai Gareth Ioan ddiolch i bawb a gymerodd ran yn yr oedfaon, gan gynnwys yr organyddion. Mae'n hynod o ddiolchgar i aelodau'r pedair eglwys am bob arwydd o groeso, cefnogaeth, anogaeth a chyfeillgarwch a dderbyniwyd ganddo dros y blynedd diweddar. Edrycha ymlaen yn awr at barhau'r dystiolaeth ac ymateb i'r siars a osodwyd iddo drwy ras Duw.



# YMHLITH Y LLYFRAU

*Dyma ail ran erthygl Iwan Llewelyn am Idwal Jones*

## Draw i Feirion

A lle bu hi wedyn? Tywyn ym Meirionnydd, a hynny reit yng nghanol yr Ail Ryfel Byd. Ac mi roedd cyfrwng y radio yn un pwerus iawn, a daeth Idwal Jones yn llais cyfarwydd iawn ar radio, a defnyddiodd y cyfrwng hwnnw i ledaenu'r neges Gristnogol a hynny mewn cyfnod pan nad oedd 'na lawer o sôn am hynny. A dyma'i ddehongliad: 'Siarad cyhoeddus ydi pregethu ond sgwrsio preifat ydi darlledu.' Bu Idwal yn ddarlledwr a phregethwr tra dylanwadol gydol ei oes. Pwy nad anghofia 'Twm Bach' ei bregeth radio bwerus?

Wedi cyfnod Tywyn dyma'i throi hi'n ôl i gyfeiriad y de, a hynny i Bencader. Os mai ieir, moch a darlledu fu'r diléits cynt, sgwennu oedd hi ym Mhencader, a sgwennu sgrïptiau, a dyma eni cyfresi *Galw Gari Tryfan* y bu gwrando brwd arnynt gan bawb. Wrth gwrs roedd ei brofiad o ddarlledu cynt yn ei alluogi i sgwennu ar gyfer cyfrwng y radio. A daeth enwau Lorraine ac Alec ar y pryd yn rhai mor gyfarwydd â Pedr a Paul! Cystal nodi i gyfnod Pencader fod yn gyfnod argraffu cardiau Nadolig hefyd.


Yng nghanol y pumdegau dyma gyrraedd y Tabernacl, Llanrwst a Nant-y-rhiw, ond eto, dyma arallgyfeirio a mynd i gyfeiriad y camera a chael cytundeb i dynnu lluniau mewn ysgolion, ac yn y diwedd i agor siop swfeniriau yr oedd mynd mawr arnynt yr adeg hynny.

Wrth ddarllen disgrifiadau Idwal o'r gwahanol gyfnodau yma, mae ei arddull mor ddoniol a chrafog yn sgwennu, all rhywun ddim llai na chwerthin.

## Onid mae dwy ochr i'r ddadl

Roedd Idwal Jones, a chwarae teg iddo am hyn, yn daer na ddylai gweinidog fyw ar drugaredd ei aelodau. Iawn. Ond yr un peth sydd braidd yn chwithig yma ydi bod yna duedd wedyn i ddsygu cynulleidfaoedd i beidio cyfrannu'n ariannol anrhydeddus, ac wrth gwrs, yr un pryd, i'w gwneud hi'n anodd ar y gweinidogion hynny oedd heb ddoniau amrywiol Idwal oedd yn medru mynd i gyfeiriadau eraill.

Wedi dweud hynny, y mae eglwysi wedi glynu'n haearnaidd wrth yr agwedd afiach mai eu heiddo nhw'u hunain yw'r gweinidog, ac y disgwyliad i'r gweinidog wneud dim ond yr union bethau y gofynnid iddo gan yr eglwys, a dim mymryn o wahaniaeth beth oedd ei



ddawn/doniau. O bosib bod angen tir canol yn rhywle.

## Cyfoes

Er mai yn 1975 y cyhoeddwyd y llyfr hwn, mae'n boenus o berthnasol i ni heddiw mewn rhannau. Dyma i chi'r rhan gyntaf lle mae Idwal, er enghraifft, yn gosod ei fater ac yn pryderu dros bobl ifanc yn y weinidogaeth Gristnogol. Dyma un enghraifft:

Mae 'na ddwy stori yn y Beibl am stormydd ar y môr. Yn llyfr Jona mae un, lle mae'r proffwyd mewn llong yn groes i orchymyn yr Arglwydd. Mae'r llall yn llyfr yr Actau, lle mae Paul yn morio tua Rhufain, ar orchymyn 'i Arglwydd. Yn y stori gyntaf, y llong sy'n cael 'i chadw a'r proffwyd yn cael ei daflu i'r dyfroedd. Yn yr ail stori, y mae'r llong yn mynd yn yfflon ond y proffwyd yn cyrraedd y lan yn saff - ar ddrylliau'r hen long! A siarad yn gyffredinol, mae arna i ofn mai Jona aiff â'r dydd, achos bod y capeli'n nes at galon y saint nag 'rydan ni weinidogion. Mae'n reit ddrwg gen i am hyn, i ddweud y gwir. Wedi'r holl flynyddoedd o bwysu mai'r gymdeithas sy'n bwysig, nid y cerrig a'r ciarbed, mae'n drist sylwi mor ddwfn ydi ymlyniad pobl wrth yr adeilad.

A chytuno'n llwyr ag Idwal Jones yn y paragraff yna, mi rydw innau'n cael y peth yn ddjarhebol o drist bod ymlyniad pobl mewn ambell i le wrth adeilad mor dynn. A fedrai mo'i ddeall o a dweud y gwir.

*Bydd rhan olaf yr erthygl ddifyr hon yn y rhifyn nesaf o'r Tyst.*



Gwahoddiad i ymuno â ni yn ein

## Gwasanaeth Diolchgarwch a Chroeso

i ffrindiau, myfyrwyr ac ieuencid newydd i  
Lundain.

**Bore Sul, 9 Hydref am 11.00**

**Lluniaeth ysgafn a chyfle i gymdeithasu i ddilyn.**

Eglwys Gymraeg Canol Llundain

30 Eastcastle Street, Oxford Circus, London W1W 8DJ

Croeso cynnes i bawb



# Yr Adran Gydenwadol

‘Mae cariad Crist yn annog y byd i gymod ac undod’

Dyddiadur Gwen Down o Aberystwyth a oedd yn stiward yng Nghymanfa Cyngor Eglwysi'r Byd yn Karlsruhe yn yr Almaen



## 25 Awst

Doeddwn i ddim yn siŵr iawn beth i'w ddisgwyl wrth i mi gyrraedd Karlsruhe ddoe ar gyfer Cymanfa Cyngor Eglwysi'r Byd. Roeddwn i wedi cael sawl cyfarfod Zoom gyda'r cant a hanner o stiwardiaid eraill o bob rhan o'r byd, ac wedi cyrraedd y gwesty roedd hi'n syndod pa mor sydyn y daethom ni i gyd i adnabod ein gilydd a gweithio gyda'n gilydd. Roedd nifer o'r stiwardiaid yn hŷn nag oeddwn i yn ei ddisgwyl; a dweud y gwir, rydw i'n meddwl mod i ymysgyr ieuengaf o bawb. Ond doedd dim ots am hynny! Yn fuan iawn mi ges i sgysiaau difyr efo darpar weinidog hoyw o Ganada, aelod o eglwys Unionged Rwsia, criw difyr iawn o Dde Affrica, dim ond i enwi rhai. Roedd hi'n dda o beth ein bod ni yn gallu cydweithio oherwydd yn fuan iawn daeth yn amlwg fod stiwardio yn golygu oriau hir a lot fawr o waith, yn enwedig gan fod rhai stiwardiaid wedi methu cael *visa* er mwyn dod i'r Almaen. Roedd y dyddiau cynta yn argoeli'n dda.

## 29 Awst

Mae Karlsruhe yn ddinas braf ac mae pob diwrnod yn cychwyn, yn gynnar iawn, gyda thaith ar y tram o'r gwesty i'r ganolfan gynadledda. Rydw i wedi cyrraedd yma wythnos cyn i'r Gymanfa ddechrau ar gyfer cynhadledd ieuencid, ac mae angen paratoi ar gyfer y Gymanfa ei hun. Daeth yn amlwg iawn yn y gynhadledd ieuencid fod pawb yn ystyried eu ffydd fel rhywbeth hynod bwysig iddynt, ond nid

rhyw ffydd sych, ddfilas oedd hon. Roedd hi'n gynhadledd llawn hwyl a chwerthin a chanu, ond hefyd yn trafod materion fel newid hinsawdd, cydraddoldeb hil a rhyw a rhyfel a heddwch, ac er bod 'na rywfaint o anghytuno, roedd pawb yn cyd-dynnu ac yn parchu ei gilydd. Roedd e'n brofiad da.

## 1 Medi

Mae'r gynhadledd wedi dechrau. Mae miloedd o bobl yma, a rydw i wedi bod yn chwilio am y Cymry. Rydw i wedi gweld rhai yn barod a chael ambell sgwrs, ac mae pawb yn edrych ymlaen. Rydw i wedi cael fy ngosod i stiwardio yn y neuadd fawr; ar adegau byddaf yn gofalu am un o'r meicroffonau ar gyfer y cynrychiolwyr. Maen nhw eisoes wedi dweud wrthym y gall y trafod fynd yn boeth a bod y stiward ar y meic yn gorfod bod yn bendant iawn pan fydd pobl yn mynnu siarad yn hir. Ond y fantais fawr yw y byddaf yn y neuadd pan fydd y trafod mawr yn digwydd. Mae cynrychiolwyr o Rwsia ac o Wcráin yma – maen nhw wedi eu gosod cyn belled â phosib oddi wrth ei gilydd. Dwi'n siŵr y bydd y drafodaeth ar y rhyfel yn un fywiog iawn.

Dyma fy ail ddydd lau mewn du. Rydym yn gwisgo du bob dydd lau oherwydd ym mhob gwlad mae trais ar sail rhywedd yn realiti trasig iawn. Mae'r trais hwn yn aml yn guddiedig, ac mae'r dioddefwyr yn dawel ac yn ofni stigma ac yn ofni trais pellach. Mae dros 30% o fenywod yn dioddef trais corfforol neu rywiol gan bartner neu rywun agos yn ystod eu hoes. Mae Cyngor

Eglwysi'r Byd wedi penodi dydd lau fel diwrnod i wisgo du er mwyn dangos ein bod ni yn sefyll gyda'r menywod neu'r bobl yma sydd wedi cael eu heffeithio. Mae 'na waith celf yn hongian yng nghefn un o'r prif neuaddau, tapestri sydd yn adlewyrchu profiadau menywod o bob rhan o'r byd. Mae 'na gant wyth deg un stori wedi eu pwytho yn stribedi lliwgar sydd yn symud yn yr awel pan fydd pobl yn mynd heibio. Artist o Frasil, Janine Marja Schneider, sydd wedi pwytho'r gwaith, ac roedd hi'n dweud ei bod gyda phob pwyth yn uniaethu â dioddefaint y menywod.

## 6 Medi

Mae 'na dipyn bach o anniddigrwydd yn y gynhadledd – yn enwedig yn ein plith ni, bobl ifanc. Mae'r Cyngor yn dweud eu bod eisieu clywed lleisiau pobl ifanc ond wrth ethol eu pwyllgor gwaith maen nhw wedi methu hyd yn oed cyrraedd eu nod eu hunain. Dim digon o bobl ifanc, dim digon o ferched, dim digon o bobl yn byw efo anableddau – roedd cryn anniddigrwydd ac fe ddaeth tua dwsin o bobl ifanc at y meicroffon eisieu siarad. Ond cyhoeddwyd o'r llwyfan nad oedd amser i'r un ohonynt siarad. Yn y diwedd, fe gafodd un ferch o Frasil gyfle i siarad am funud yn unig. Mae pawb yn pwysleisio fod rhaid gweithredu yn hytrach na siarad yn unig, ond heddiw doedd 'na ddim cyfle i siarad hyd yn oed. Doedd y Cyngor ddim yn gweithredu ei bolisi ei hun!

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

**Dyddiadur Gwen Down o Aberystwyth***(parhad o dudalen 1)*

Ond, a bod yn deg gyda'r Cyngor, yr eglwysi sydd yn rhwystro'r newid. Nid yw eglwysi yn anfon cynrychiolwyr ifanc i'r Gymanfa. Pe bai eglwysi o ddifri ynghylch cael cynrychiolaeth deg o ferched, pobl ifanc a phobl yn byw ag anableddau, byddai'r cynrychiolwyr yn adlewyrchu hynny. Tybed nad oes yn rhaid i eglwysi Cymru a phob gwlad arall ddechrau ymddwyn fel eglwysi sydd yn credu mewn cydraddoldeb rhyw a rhai sydd am glywed lleisiau pobl ifanc? Ymhen wyth mlynedd, pan gynhelir y Gymanfa nesaf, efallai y bydd gan Gymru gynrychiolwyr ifanc yn ogystal â chynrychiolwyr arferol, ac y gall y Cyngor wedyn ddewis Pwyllgor Gwaith gwir gynrychioliadol.

**7 Medi**

Y ddau ddiwrnod diwetha' wedi bod yn brysur iawn ac mae'r stiwardiaid i gyd wedi blino yn lân. Mae lot o drafod go fywiog wedi bod wrth geisio cael consensws ar ddatganiad ar ryfel Wcráin. Mae'r gynhadledd yn gweithio ar gonsensws yn hytrach na phleidlais o blaid ac yn erbyn.

Rhaid cael cydsyniad pawb ac mae hynny yn gallu bod yn broses araf. Roedd yna deimladau cryf iawn yn cael eu mynegi am y datganiad ar y Dwyrain Canol. Roedd esgob o un o eglwysi'r Almaen yn daer yn erbyn defnyddio'r gair apartheid wrth ddisgrifio agweddau o fewn Israel tuag at Balestinaid. Roedd yn cyfeirio at sensitifrwydd yn yr Almaen oherwydd yr atgof am yr Holocaust. Yn y diwedd roedd rhaid cael datganiad oedd yn dweud fod yna anghytuno ynghylch y term ac na ellid dod i gytundeb yn ei gylch.

**8 Medi**


Gwisgo du unwaith eto. Mae'r gynhadledd yn dod i ben – ni fyddaf yn colli'r teithiau tram am 7 y bore! Ein dyletswydd olaf oedd stiwardio cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Gwaith newydd: 150 o aelodau ac yn eu plith yr Esgob Gregory Cameron, esgob Llanelwy. Fe siarodd amryw o weithiau yn y cyfarfod ond nid oes hawl i rannu dim ddigwyddodd yn y pwyllgor.

Rhaid i mi deithio i Frankfurt heno i gychwyn fy nhaith am adref. Ond daeth pawb o'r stiwardiaid at ei gilydd mewn bwyty yn y ddinas gyntaf, ac roedd llawer iawn o siarad, chwerthin a cholli dagrau wrth ffarfelio. Mae'r cyfan wedi bod yn brofiad gwych. Rydw i wedi cyfarfod ac wedi gweithio gyda phobl amrywiol iawn; mae gen i ffrindiau o bob rhan o'r byd ac rydw i'n deall ffydd fel rhywbeth llawer iawn mwy amlochrog. Rydw i'n deall yn iawn nad oes ffordd i ni gytuno ar bopeth drwy'r amser a gallaf dathlu fod amrywiaeth yn rhan o'n ffydd ni. Rydw i'n deall yn well hefyd sut mae ffydd yn help i ni ddeall ein cyfrifoldeb am y byd ac am ein gilydd. Adref nawr gan edrych ymlaen at dipyn bach mwy o gwsq.

## **Inc yr Awen a'r Cread: Cerddi Byd Natur** **(Golygydd: Rhys Dafis; Cyhoeddiadau Barddas, 2022)**

Ers 2017 mae ngwerthfawrogiad i o fyd natur wedi grymuso ers i Macsen ddod i'n tŷ ni. Nid nad oeddwn i'n gwerthfawrogi'r byd hwnnw cyn hynny, cofiwch, ond y mae Macsen y ci wedi'n gorfodi ni i fynd allan o'r tŷ sawl tro mewn diwrnod i fynd â fo am dro. Yn amlach na pheidio, Macsen fydd yn mynd â ni! A da hynny, oherwydd mae o wedi gwneud inni werthfawrogi'r cread, ac yn dal i wneud hynny. A dydw i ddim yn mynd i wamalu na dilyn unrhyw ddadl, dim ond dweud – cread Duw: 'Eiddo'r Arglwydd y ddaear a'i llawnder, y byd a'r rhai sy'n byw ynddo' (Salm 24: 1).

A gwnaeth y cyhoeddiad hwn gymwynas fawr â ni yn crynhoi cerddi, penillion ac englynion, ia, sydd wedi'u dweud gennym lawer tro, ac wedi aros yn y co'. Ond drwy eu cael nhw mewn cyfrol hylaw, hardd, mae rhywun yn medru troi



atyn nhw'n rhwyddach rywsut. Mi gewch chi amrywiaeth o farddoniaeth gan wahanol feirdd yma – beirdd sy'n mynd yn ôl i R. Williams Parry, T. Llew Jones ac Iorwerth C. Peate, ymlaen i'n cyfnod

a'n cenhedlaeth ni. Mae'r amrywiaeth testunau'n eang, ac i mi mae englyn Philippa Gibson i'r 'Archfarchnad' yn crynhoi rhan fawr o neges y gweithiau:

O'r ddaear mynnwn gario – yn helaeth  
O'i thir gan lwytho  
Bag 'rôl bag hyd nes y bo  
Ddigon i'r silffoedd wagio.

Mae amrywiaeth yn y testunau hefyd, a cheir adrannau sy'n sôn am adar, anifeiliaid, ynghyd â phobl a natur, ac rydyn ninnau, dwi'n siŵr, yn cael ein hatgoffa o gyfieithiad Elfed o waith Joachim Neander:

Nef a daear, tir a môr  
Sydd yn datgan mawl ein lôr,  
Fynni dithau, f'enaid, fod  
Yn y canol heb roi clod?

Porwch yn y gyfrol hardd yma, sy'n cynnwys llun trawiadol i gyd-fynd â phob un o'r cerddi. Ei phris yw £10.95.

*Iwan Llewelyn*

**S4C**

### **Dechrau Canu, Dechrau Canmol** **Sul, 2 Hydref am 7.30yh**

Bydd Lisa yng Nghaerdydd yn ymweld ag Oasis, canolfan lloches i ffoaduriaid. Cawn glywed gan y cerddor Carwyn Ellis, sy'n estyn llaw i'r rhai sy'n ffoi rhag gormes a thrais.

### **Caniadaeth y Cysegr**

**Sul, 2 Hydref, am 7:30yb a 4:30yp**

Elin Manahan Thomas yn trafod cyfraniad cyfansoddwyr clasurol tuag at ein hemynyddiaeth

**Sul, 2 Hydref, am 12:00yp**

Oedfa dan arweiniad Olwen Williams, Tudweiliog

## ADNABOD

## Cymeriadau'r Hen Destament

## ABRAHAM

Cyfes o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

**Abraham – anffyddlondeb, ffyddlondeb a phobman rhwng y ddau!**

### 1 Cyflwyniad i'r maes

**Darllen: Galatiaid 3:15–29**

Mae'n anodd gorbwysleisio pwysigrwydd Abraham yn y stori Feiblaidd ac mewn diwinyddiaeth Gristnogol. Mae adnod gyntaf y Testament Newydd yn nodi Iesu fel 'mab Abraham' (Mathew 1:1). Ac eglura Paul i'w ddarllenwyr, y rhan fwyaf ohonynt heb fod yn Iddewon, 'Ac os ydych yn eiddo Crist, yna disgynyddion Abraham ydych, etifeddion yn ôl addewid' (Galatiaid 3:29).

Mae'r pedair efengyl, llyfr yr Actau, tri o lythyrau Paul – y llythyr at yr Hebreaid, 1 Pedr ac Iago – yn enwi Abraham 71 o weithiau. Mae'r patriarch yng nghanol dysgeidiaeth y Testament Newydd ynglŷn â ffyddlondeb Duw i'w addewidion cyfamodol, hunaniaeth pobl Dduw, cyfiawnhad trwy ffydd ar wahân i'r gyfraith, a'r ufudd-dod sy'n plesio Duw.

Gan fod Abraham, felly, nid yn unig yn ffigwr canolog ar ddechrau hanes ymwneud Duw â phobl, neu genedl arbennig, ond hefyd yn ganolog i'r ddealltwriaeth Gristnogol o berthyn i bobl Dduw, mae'n berson y dylem ddod i'w adnabod yn well. Yn ystod y flwyddyn nesaf, os Duw a'i myn, fy mwriad yw ceisio edrych ar gefndir yr hanes am Abraham, edrych ar yr hanesion eu hunain, yn arbennig yng nghyd-destun y bwriad y traddodwyd hwy yn gyntaf, ac yna, drwy'r hanesion, deall eu perthasedd i fywyd y Cristion, ac i fywyd yr Eglwys, pobl Dduw.

Fel ychydig o gyflwyniad, rydym yn gyfarwydd iawn â'r amrywiaeth sy'n perthyn i genhedloedd gwahanol o amgylch y byd. Perthyn iddynt ddaearyddiaeth, grwpiau ethnig a thraddodiadau unigryw. Yr hyn sy'n gyffredin fel arfer yw'r storïau sydd gennym am ddechreuadau ein cenedl. Byddwn yn eu hadrodd nid yn unig er sicrhau parhad yr hanes a bod plant a phlant y plant yn cofio'u gwreiddiau, ond hefyd er mwyn sylweddoli bod yna ddelfrydau o'n gorffennol ddylai ein cynorthwyo i ddarganfod cyfeiriad ar gyfer y dyfodol.

Mae'r un peth yn wir am bobl Dduw yn yr Hen Destament. Maent yn trysori hanesion eu dechreuadau er sicrhau coffadwriaeth o fenter a ffydd yr hynafiaid gyda golwg ar geisio cerdded yr un llwybrau yn eu presennol a'u dyfodol. Ond, ac mae hwn yn

ond pwysig, yr un peth sy'n anghyffredin am yr hanesion yn y Beibl, boed hynny am hanes Abraham neu unrhyw un arall o brif gymeriadau hanes pobl Dduw, mae'r darlun ageirohonynt yn uncignoetha gonest. Wrth inni fynd drwy hanes Abraham, gobeithio y gwelwch arwyddocâd pennawd ein gwrs heddiw.

Pan oeddwn yn yr ysgol yn gwneud 'Ysgrhythur', rwy'n cofio'r athro'n dysgu mai'r foment allweddol ym mywyd Abraham oedd yr adnodau sy'n dechrau â'r gorchymyn: 'Dywedodd yr ARGLWYDD wrth Abram, "Dos o'th wlad, ac oddi wrth dy dylwyth a'th deulu, i'r wlad a ddangosaf i ti"' (Genesis 12:1–3). Mae Genesis 11:31 yn dweud wrthym fod Abraham ar ei ffordd i Ganaan yn barod, a bod ei dad wedi aros yn Haran ar y ffordd. Tebyg fod fy athro heb sylwi bod yr ymadrodd yn 12:1 yn llythrennol yn nodi, 'Ac wedi dweud yr Arglwydd wrth Abram'. Ymhellach, er y gorchymyn i fynd a gadael ei deulu, erbyn adnod 5, mae'r llwyth i gyd yn gadael!

Yr wyfyn nodi hyn i gyd ar y dechrau gan fod unrhyw ymgais i esbonio rhai o'r hanesion dilynol yn nhermau rhywun oedd yn gawr o ran ffyddlondeb o'r galwad cyntaf yn mynd i fod bron yn amhosibl. Mae'r hanesion yn dweud rhywbeth gwahanol – fod Abraham, yn sicr am y 25 mlynedd cyntaf wedi gadael Haran, ymhell o fod yn ffyddlon. Ond, trwy ras, mae yna newid. Mae hynny'n wers ddigon buddiol i ni ar ddechrau'r daith yma. Anffyddlon, ffyddlon, neu bobman rhwng y ddau, gras Duw yw ein hunig obaith sicr yn wyneb ein crwydro personol. Nid hanes i ganmol Abraham sydd yma, ond hanes i ganmol Duw Abraham.

1. Pa bethau yn eich bywyd, bywyd eich eglwys neu fywyd ein cenedl sydd, yn eich tyb chi, yn bwysig eu trosglwyddo?
2. Meddyliwch am enghreifftiau o'r Beibl lle mae gonestrwydd y darlun o gymeriadau yn syndod, yn heriol ac/neu yn gysur?
3. Sut mae gras yn delio â'n hanes?

University of  
South Wales  
Prifysgol  
De Cymru

## Cyd-gaplan llawn amser

Mae Caplaniaeth Prifysgol De Cymru am benodi Gweinidog ordeiniedig yn Gyd-gaplan llawn amser. Byddwn hefyd yn ystyried ymgeiswyr am y weinidogaeth a all ddangos profiad addas ac a fydd yn cael eu hordeinio i'r swydd gan eu henwad. Nid yw profiad o gaplaniaeth Addysg Uwch yn hanfodol.

Mae Prifysgol De Cymru yn gymuned amlddiwylliannol/aml-ffydd sydd wedi'i lleoli ar bum campws, ym Mhontypridd, Caerdydd, Casnewydd a Merthyr Tudful.

Mae tîm integredig y Gaplaniaeth yn darparu gweinidogaeth ragweithiol i bobl o bob ffydd, a dim ffydd, ar draws pob campws. Yn ogystal â rhannu gwaith bugeiliol y Gaplaniaeth, bydd y sawl a benodir yn trefnu digwyddiadau i fyfyrwyr, yn gallu defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol wrth gysylltu â myfyrwyr a hyrwyddo gwaith y Gaplaniaeth, yn goruchwyllo'r rhaglen wirfoddoli ac yn datblygu'r Tŷ Cwrdd ymhellach fel man croesawgar, bywiog, i staff a myfyrwyr.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn llawn dychymyg ac yn egniol ac yn cofleidio ethos agored a chynhwysol y Gaplaniaeth yn llawn, yn gyfforddus gyda gwahaniaeth, ac yn gallu gweithio'n hyblyg gyda gofynion amrywiol mewn amgylchedd prysur.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: dydd Sul, 9 Hydref 2022

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Y Parchg Vaughan Rees, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Caplaniaeth, Prifysgol De Cymru, Pontypridd, CF37 1DL; [vaughan.rees@southwales.ac.uk](mailto:vaughan.rees@southwales.ac.uk)

I weld y cyhoeddiad digidol [Cenn@d](mailto:Cenn@d) yn llawn, dilynwch y ddolen hon: [www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru)

(Cyhoeddwr [Cenn@d](mailto:Cenn@d) ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

## Ymrwymo i air Duw yn Tsieina

Hoff le Zhou Yaqin yng Nghanolfan Hyfforddiant y Beibl yn nhalaith Tsieineaidd Canol Mongolia yw'r llyfrgell. Mae llawer o adnoddau Beiblaidd yno, gan gynnwys llyfrau a gyfrannwyd gan gefnogwyr Cymdeithas y Beibl. Bu'r rhain yn gyfrwng i ddyfnhau ei ffydd a hefyd ei chynorthwyo yn ei gweinidogaeth Gristnogol.

'Rwyf wedi darllen bywgraffiadau Cristnogion; llawer o gyfrolau Cristnogol clasurol a llu o esboniadau. Mae pob un ohonynt wedi bod yn gynhaliath ysbrydol. Wrth imi wasanaethu'r Arglwydd mewn nifer gynyddol o ardaloedd, rwy'n trysori gair Duw fwyfwy,' meddai Zhou.

Yn 2011, Zhou oedd un o raddedigion cyntaf y ganolfan. Cafodd ei magu mewn teulu Cristnogol ond dim ond wrth astudio yng nghanolfan Baotou y teimlodd ei bod hi wedi cael ei ail-eni a dod i ffydd wirioneddol. Dywed, 'Yn ystod fy astudiaethau yn y ganolfan hyfforddi, dechreuais geisio Duw o ddifrif, gan ddyheu am feithrin perthynas ddyfnach gydag Ef. Erbyn i mi raddio roedd fy awydd i wasanaethu'r Arglwydd wedi cynyddu cymaint nes i mi wrthod cyfleoedd gwaith eraill a ddaeth i'm rhan. Gwn yn sicr mai dyma alwad Duw arnaf i'w wasanaethu yn yr eglwys.'

### I astudio a gwasanaethu

Yn 2015, ar ôl gwasanaethu yn ei heglwys leol am nifer o flynyddoedd, dychwelodd i weithio yn y ganolfan.

'Ffrwyth gweledigaeth ein harweinwyr eglwysig oedd y ganolfan hyfforddi Beiblaidd. Roeddent yn gweld yr angen mawr am hyfforddiant Beiblaidd yn eglwys lleol y ddinas hon.

Daw ein myfyrwyr o eglwys ledled Baotou a phan fyddant wedi cwblhau eu hyfforddiant, byddant yn dychwelyd i wasanaethu yn eu heglwys eu hunain,' meddai Zhou.

Mae'r twf yn nifer y bobl sy'n dod i ffydd yn Tsieina wedi bod mor fawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf fel bod yna bellach brinder difrifol o fugeiliaid, gyda dim ond un gweinidog hyfforddedig ar gyfer pob 6,700 o Gristnogion. Mae dirfawr angen gweinidogion, a diolch i gefnogwyr Cymdeithas y Beibl, mae mwy a mwy bellach yn cael eu hyfforddi.

Ychwanega Zhou 'fod dealltwriaeth y myfyrwyr o gyd-destun hanesyddol, diwylliannol a daearyddol y Beibl yn brin. Ond mae'r deunyddiau newydd yn newid hynny. Mae gan yr awduron ddealltwriaeth dda o Dduw a'i air ac y maent yn ffyddlon i'r Ysgrifurau. Beth amser yn ôl, pan oeddwn yn dysgu o Lyfr y Brenhinoedd, ymgynghorais â'r defnyddiau Beiblaidd esboniadol yn y llyfrgell. Fe wnaethon nhw fy nghynorthwyo yn fawr iawn.'

### Edrych ymlaen

Wrth edrych tua'r dyfodol mae Zhou yn fwy hyderus gyda'r adnoddau hyn a theimla y gall fod yn fwy effeithiol yn ei gweinidogaeth eglwysig fel athrawes ac arweinydd. Mae nifer y llyfrau sydd yn y llyfrgell yn cynyddu a hynny gyda chymorth cefnogwyr Cymdeithas y Beibl.

'Ar hyn o bryd mae oddeutu 5,000 o lyfrau yn ein llyfrgell, er bod llyfrgelloedd seminarau diwinyddol Tsieina fel arfer yn cynnwys o leiaf 10,000 o lyfrau,' meddai. Serch hynny, mae Zhou yn sicr y byddai eu holl fyfyrwyr yn elwa o'r adnoddau

Eglwys Annibynnol  
Providence, Llangadog  
Bethlehem, Dyffryn Ceidrych,

### Gwasanaeth Sefydlu'r Parchedig Catrin Ann

Prynhawn Sadwrn, 1 Hydef, 2022 am  
2 o'r gloch y prynhawn  
yng Nghapel Providence Llangadog

Bydd lluniaeth wedi'r oedfa yn  
Neuadd Gymunedol Llangadog

Croeso Cynnes i bawb

Ysgrifenyddes yr ofalaeth: Mrs Jennifer Hughes  
Efail Newydd, Carreg Sawdde,  
Llangadog SA19 9BU  
(01550 779122 e.bost jen60@hotmail.co.uk)

Beiblaidd hyn: 'Gan fod angen llawer o adnoddau ar fyfyrwyr ar gyfer eu hastudiaethau, mae'r llyfrau hyn yn rhoi cyfeiriadaeth llawer ehangach iddynt.

'Ar ran y myfyrwyr a'r athrawon, hoffwn ddiolch i gefnogwyr Cymdeithas y Beibl am eu haelioni a'u baich dros weinidogaeth yr Arglwydd. Pan welwn y llyfrau hyn, teimlwn eu cariad at Dduw, ac mae'n ysbrydoliaeth i ni i gyd. Maen nhw'n fodd i atgoffa athrawon a myfyrwyr nad ydyn ni ar ein pennau ein hunain yn cysegru ein bywydau i weinidogaeth Duw. Molwch yr Arglwydd!'

*Addaswyd yr erthygl hon o wefan Cymdeithas y Beibl. Y mae'n ein hatgoffa pa mor werthfawr phwysig yw gwaith y Gymdeithas hon ar hyd a lled y byd ac yma yng Nghymru. Os cewch gyfle cofiwch gyfrannu yn hael tuag at Gymdeithas y Beibl.*




# Barn Annibynnol

## Pa obaith?

Mae'n debyg bod pobl yn anobeithio ynghynt nawr nag erioed o'r blaen. Dyna ddarllenais i mewn erthygl ar wefan *Psychology Today* yn ddiweddar.

Wn i ddim sut y daethpwyd i'r casgliad hwn, ac efallai nad yw'n bwysig; mae'r dybiaeth neu'r canfyddiad yr un mor arwyddocaol heb dystiolaeth i'w brofi. A does dim angen i mi restru'r tueddiadau a digwyddiadau allai fod wedi cyfrannu at hyn dros y blynyddoedd, misoedd ac wythnosau diwethaf. Doedd yr erthygl hon ddim yn



sôn beth oedd wedi ysgogi'r anobaith chwaith. Canolbwyntiai ar beth oedd yn cael eu galw'n 'bobl y gobeithion mawr' (*high hope people*) a beth allwn ei ddysgu ganddyn nhw.

### Pobl y gobeithion mawr

Mae'r bobl hyn yn gweld y byd mewn ffordd wahanol, ac yn arddangos saith nodwedd gyffredin. Maen nhw'n gweld posibiliadau yn hytrach na chredu na all pethau newid; yn sylwi ar brydferthwch, buddion a bendithion yn lle ffocysu ar y negyddol; yn meithrin teimladau cadarnhaol yn lle bodloni ar arferion negyddiaeth; yn canolbwyntio ar gryfderau ac nid gwendidau; yn creu amcanion heriol yn hytrach nag osgoi ymrwymiad; yn canfod pwrpas

lle nad yw eraill; ac yn gofalu'n dyner am berthnasau yn lle bod yn ynysig a

meddwl am eu hunain yn unig.

### Ffynhonnell gobaith

Cyflwynwyd y nodweddion hyn yr erthygl fel cynhwysion ar gyfer creu ein gobaith oddi mewn ein hunain, 'gobaith dysgedig' (*learned hopefulness*), fel y'i gelwir. I mi, fodd bynnag, roedd y rhain yn swnio fel canlyniadau yn fwy nag achosion gobaith.

Duw yw 'ffynhonnell gobaith' (Rhuf. 15:13), medd Paul, nid ein hewyllys ein hunain. Oherwydd beth mae Iesu wedi'i wneud trosom, mae'n ein 'llenwi â phob llawenydd a thangnefedd' wrth i ni arfer ein ffydd, nes ein bod, 'trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn gorlifo â gobaith.'

Ar adeg anobeithiol i gynifer, felly, pa mor amlwg yw'r gobaith sydd gennym ni? A yw'n gorlifo? A pha mor barod ydyn ninnau i roi ateb i bwy bynnag sy'n gofyn i ni esbonio beth ydyw?

### Dafydd Tudur

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrywydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

## Stephen Hughes, Apostol Sir Gaerfyrddin 1622-1688

Dyma drydedd rhan darlith a draddodwyd gan Dr Emyr Gwyn Evans fel rhan o bererindod Gofalaeth Brÿydd Myrddin i Bencader ac ogof Cwmhwplin

A chofiw'n am Stephen Hughes nid yn unig fel efenglydd, pregethwr a bugail gofalus ond hefyd am ei gyfraniad i fydd addysg a llenyddiaeth.

Ym myd addysg fe gydweithiodd gyda Thomas Gouge, Sais cyfoethog ac ymneilltuwr yn Llundain, dyngarwr o'r radd flaenaf oedd am noddi addysg ymhlith Cymry anllhythrennog y cyfnod, a gwnaeth sefydlu dros 400 o ysgolion ar hyd a lled Cymru. Ond fel roedd yn wir am yr ysgolion gramadeg yng Nghymru ar y pryd, megis ysgol ramadeg Caerfyrddin lle cafodd Stephen Hughes ei addysgu, fel yn ddiweddarach yn hanes Griffith Jones, Llanddowror, Thomas a David Charles a Peter Williams, addysgu trwy gyfrwng y Saesneg a wnaed yn ysgolion Thomas Gouge, sef ysgolion yr Ymddiriedaeth Gymreig (The Welsh Trust), a Stephen Hughes gyda'i gyfeillion James Owen a Charles Edwards wnaeth argyhoeddi Thomas Gouge nad oedd obaith i'w fudiad gyrraedd ei amcan heb fabwysiadu'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu yng Nghymru, ac fe aethpwyd ati i ddysgu plant i ddarllen Cymraeg yn llawer o'r ysgolion yng Nghymru.

Arweiniodd hynny at ddadeni llenyddol gan arwain a phalmantu'r ffordd yn ddiweddarach i ysgolion cylchynol Griffith Jones, Llanddowror. Addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a wnaed yn y

rhan helaethaf o'i ysgolion cylchynol.

### Cyhoeddi

Yn ychwanegol synhwyrodd Hughes yr angen am lyfrau Cymraeg, a hynny nid er mwyn cadw'r iaith Gymraeg yn fyw, na chwaith er mwyn cyfoethogi a hybu diwylliant, ond am mai'r Gymraeg oedd unig iaith trwch poblogaeth y Cymry. Gwyddai Hughes na ellid achub eu heneidiau nac enaid y genedl ond trwy ddefnyddio'r Gymraeg. Roedd yn ymwybodol y byddai cael llyfrau Cymraeg yn help i'r Cymry ddeall yn well yr hyn a bregethwyd iddynt. Ac fe fu'n gynhyrchol yn y maes gan gyhoeddi, yn ôl yr hanesydd Geraint Jenkins, 86 o lyfrau Cymraeg eu hiaith, y rhan fwyaf ohonynt yn gyfieithiadau o'r Saesneg, rhwng 1670 a 1689. Pan roedd prinder Beiblau yng Nghymru fe fu'n ddyfal i sicrhau cyhoeddi argraffiad a chyflenwad o Destamentau Newydd a'r Salmau, a Beiblau, am bris rhesymol i Gymry tlawd eu byd. Dosbarthwyd mil o gopiâu o'r Beibl yn rhad ac am ddim ymhlith y tlodion a hynny yn 1677-78. O'i boced ei hunan talodd am brintio yn 1677 y cyfrolau *Tryssor i'r Cymry* a *Cyfarwydddeb i'r Anghyfarwydd* lle gwariodd, mae'n debyg, draean o'i gynilion ef a'i wraig.


### Canwyll y Cymry

A Stephen Hughes gyhoeddodd benillion adnabyddus y Ficer Prichard, penillion ar ei grwydradau yr oedd wedi clywed y Cymry yn eu hadrodd yn rhugl ac ar eu cof. Dychmyger y gwaith o gasglu'r holl

benillion yn gyntaf, ac wedi cyhoeddi sawl argraffiad, cafwyd y casgliad cyflawn cynharaf erbyn 1672 er mai yn argraffiad 1681 y rhoes y teitl *Canwyll y Cymry* i'r cerddi.

Y Gair yw'r gannwyll a'th oleua,  
Y Gair yw'r gennad a'th gyf'rwydda;  
Y Gair a'th arwain i Baradwys  
Y Gair a'th ddwg i'r nef yn gymwys.

Nod Hughes wrth gyhoeddi penillion y Ficer Prichard oedd cynhyrfu a chyffroi'r rhai na allent ddarllen i ddysgu darllen Cymraeg er mwyn iddynt gynyddu mewn gwybodaeth a duwioldeb. Y Ficer Prichard oedd Pêr Ganiedydd y Cymry yn oes Stephen Hughes cyn dyddiau William Williams Pantycelyn, yn foisol gwyddai Hughes beth oedd gwerth a dylanwad cerddi'r Ficer.



**Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:**

Y Parchg Ddr Alun Tudur  
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,  
Caerdydd, CF23 9BS  
Ffôn: 02920 490582  
E-bost: aluntudur@btinternet.com

**Golygyddion**

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones  
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,  
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,  
LL49 9UE  
Ffôn: 01766 513138  
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny  
Porth Angel, 26 Teras Picton  
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX  
Ffôn: 01267 232577 /  
0781 751 9039  
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

**Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:**

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc  
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe  
ABERTAWE SA7 0AJ  
Ffôn: 01792 795888  
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

**Dalier Sylw!**

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan  
Bwyllgor Llywio'r Adran  
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr  
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a  
welo Golygyddion Y Tyst ddim â  
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

**DYDD GWEDDI'R BYD IS-BWYLLGOR CYMRAEG**

Pleser o'r mwyaf oedd cael cyd gyfarfod wyneb yn wyneb i gael golwg cyntaf ar y gwasanaeth Cymraeg ar gyfer dydd Gwener 3 Mawrth 2023. Gwasanaeth wedi ei lunio'n wreiddiol gan chwirydd Cristnogol Taiwan 'Clywais am eich Ffydd'. Dosberthir y pecyn gwybodaeth i'r rhai sydd ar ein rhestr ym mis Hydref. Mae croeso i bawb sydd am drefnu gwasanaeth, a heb fod ar ein rhestr, ofyn am becyn. Rydym yn ffyddiog y bydd popeth ar gael fel arfer yn ein cynadleddau undydd. Bore i baratoi a chael syniadau ar gyfer eich gwasanaethau lleol ym mis Mawrth.

Gogledd: dydd Mawrth 22 Tachwedd (10.00–1.00) Capel y Groes, Wrecsam

De: dydd Mercher 30 Tachwedd (10.30–12.00) festri Heol Awst, Caerfyrddin

Os na fydd yn bosib i chi fod yn un o'r uchod byddem yn gwerthfawrogi eich gweddïau.

**Mary Thomas – Ysgrifennydd**



*Y gynrychiolaeth o'r enwadau ddaeth i gyfarfod trefnu Rhaglen Dydd Gweddi'r Byd 2023 'Clywais am eich ffydd' Effesiaid 1, 15–19*

**Dau  
lywydd**

Tra bu ar ymweliad â dinas Lerpwl dros yr haf, cafodd Llywydd presennol yr Undeb, y Parchg Beti-Wyn James, y fraint o osod blodau ar fedd Llywydd cyntaf yr Undeb, sef Gwilym Hiraethog.

Bu farw'r Dr William Rees yng Nghaer ar 8 Tachwedd 1883 (bu farw ar ddydd ei ben-blwydd yn 81 oed yn ôl y garreg fedd) a'i gladdu ym mynwent parc Toxteth, Lerpwl. Mae'n siŵr y byddai'n falch o wybod bod Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn dal i dystio yn egniol i newyddion da yr Efengyl Gristnogol, ganrif a hanner ar ôl cadeiryddiaeth Gwilym Hiraethog yn Undeb Caerfyrddin 1872.

